Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Gorchmynion Cymorth Teuluol a Gorchmynion Monitro: taflen ffeithiau

Egluro rôl Cafcass Cymru pan fydd y Llys Teulu yn gwneud Gorchymyn Cymorth Teuluol neu Orchymyn Monitro Cyswllt.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gorchmynion-cymorth-teuluol-gorchmynion-monitro-taflen-ffeithiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Introduction

Family Assistance Orders

Monitoring Orders

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gorchmynion-cymorth-teuluol-gorchmynion-monitro-taflen-ffeithiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Introduction

Gall y llys wneud Gorchymyn Cymorth Teuluol neu Orchymyn Monitro sy'n ei gwneud yn ofynnol i Cafcass Cymru gynghori a chynorthwyo yn y broses o lunio, gwella a chynnal trefniadau plentyn, neu fonitro'r trefniadau hyn.

Prif flaenoriaeth y llys fydd lles y plentyn, ac ni fydd y llys yn gwneud gorchymyn oni fyddai gwneud gorchymyn o'r fath yn fwy buddiol i'r plentyn na pheidio â gwneud gorchymyn o gwbl.

# Family Assistance Orders

## Beth yw Gorchymyn Cymorth Teuluol?

Mae gorchmynion cymorth teuluol (GCT) yn orchmynion y bydd rhieni a/neu ofalwyr wedi cytuno y gall y llys eu gwneud. Os bydd y llys yn gwneud GCT, bydd yn gwneud hynny fel arfer ar ôl iddo benderfynu gyda phwy y bydd y plentyn yn byw ac yn treulio amser (gorchymyn trefniadau plentyn).

Mae GCT yn rhoi cyfarwyddyd i Cafcass Cymru roi cyngor neu gymorth i'r bobl a enwir yn y gorchymyn ynghylch llunio, gwella neu gynnal trefniadau plentyn. Gall y llys wneud y GCT os bydd o'r farn na fyddai rhieni neu ofalwyr y plentyn yn gallu rhoi eu trefniadau ar waith yn llwyddiannus heb i Cafcass Cymru fod yn rhan o'r broses.

Gall GCT bara hyd at 12 mis, ond bydd llawer o'r gorchmynion hyn am gyfnod byrrach, er enghraifft rhwng 3 a 6 mis. Rhaid i bob unigolyn a enwir gydsynio â'r GCT. Y llys fydd yn pennu hyd y GCT a gall roi cyfarwyddyd i Cafcass Cymru gyflwyno adroddiad i'r llys pan ddaw'r GCT i ben.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gorchmynion-cymorth-teuluol-gorchmynion-monitro-taflen-ffeithiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Pryd y caiff Gorchymyn Cymorth Teuluol ei argymell?

Rhaid i'r llys ofyn barn Cafcass Cymru cyn gwneud GCT, er mwyn trafod a fyddai gwneud gorchymyn o'r fath er lles pennaf y plentyn, sut y gallai weithredu ac am ba hyd.

Dim ond os bydd ymarferwyr Cafcass Cymru o'r farn bod angen cymorth neu gyngor, am gyfnod byr, er lles y plentyn ac er mwyn i drefniadau'r plentyn weithio y byddant yn argymell GCT.

Cyn argymell GCT, bydd yr ymarferydd wedi siarad â'r oedolion a, lle y bo'n briodol, y plentyn, er mwyn cael gwybod eu barn. Bydd yn fodlon y bydd pob un o'r oedolion yn gweithio'n unol â chynllun y cytunwyd arno sy'n cynnwys nodau clir, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion lles y plentyn ac sy'n debygol o lwyddo.

Gallai ymarferwyr Cafcass Cymru gyflwyno'r argymhelliad hwn mewn adroddiad i'r llys neu gallai roi ei farn yn ystod gwrandawiad llys.

## Beth fydd yn digwydd?

Bydd ymarferydd Cafcass Cymru yn llunio cynllun clir gyda'r oedolion a enwir sy'n canolbwyntio ar anghenion a lles y plentyn ac sy'n nodi:

- Y materion y mae'r GCT yn anelu at roi cymorth yn eu cylch, a sut y bydd hyn o fudd i'r plentyn
- Y camau gweithredu a fydd yn helpu'r teulu i lunio, gwella neu gynnal y trefniadau ar gyfer y plentyn
- Pwy sy'n gyfrifol am ba gamau gweithredu
- Ym mha ffordd a pha mor aml y bydd yr ymarferydd yn cysylltu â'r bobl a enwir yn y GCT a / neu'r plentyn i drafod eu cynnydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gorchmynion-cymorth-teuluol-gorchmynion-monitro-taflen-ffeithiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Unrhyw gyfarfodydd a gynhelir fel rhan o'r GCT
- A fydd adroddiad neu adolygiad ar ddiwedd y GCT.

## Pwyntiau pwysig i'w nodi

Mae gorchmynion cymorth teuluol yn rhoi cymorth byrdymor i deuluoedd lunio, gwella neu gynnal y trefniadau plentyn a nodir mewn gorchymyn trefniadau plentyn. Eu nod yw gwella sefyllfa'r plentyn.

- Nid yw GCT yn addas ar gyfer rheoli trefniadau plentyn sy'n achosi risg neu sy'n anniogel.
- Nid yw GCT yn ffordd o geisio rhoi trefniadau ar waith na chawsant eu gorchymyn gan y llys neu na chytunwyd arnynt gan y plentyn a'r oedolion dan sylw.
- Nid yw ymarferwyr yn goruchwylio amser teulu fel rhan o'r GCT, nid ydynt yn ymgymryd â gwaith stori bywyd na gwaith therapiwtig gyda phlant nac oedolion.
- Mae Cafcass Cymru yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener ac nid yw ymarferwyr yn rhoi cyngor na chymorth y tu allan i oriau gwaith arferol.

# Monitoring Orders

## Beth yw Gorchymyn Monitro?

Gall y llys wneud gorchymyn monitro, sy'n rhoi cyfarwyddyd i Cafcass Cymru gadarnhau a yw person yn cydymffurfio â gorchymyn trefniadau plentyn. Gall y gorchymyn monitro bara hyd at 12 mis. Gall y llys ofyn i Cafcass Cymru gyflwyno adroddiad i'r llys yn ystod cyfnod y gorchymyn monitro neu ar ddiwedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gorchmynion-cymorth-teuluol-gorchmynion-monitro-taflen-ffeithiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y cyfnod hwnnw.

Nid oes angen i'r llys gael cytundeb y rhieni neu'r gofalwyr er mwyn gwneud gorchymyn monitro.

## Beth fydd yn digwydd?

Bydd Cafcass Cymru yn gwneud trefniadau gyda'r oedolion dan sylw i fonitro cydymffurfiaeth â'r gorchymyn trefniadau plentyn. Fel arfer, gwneir hyn drwy un alwad ffôn neu fwy.

Bydd Cafcass Cymru yn dilyn y cyfarwyddiadau a wnaed gan y llys o ran sut i roi gwybod i'r llys os na fydd y person sy'n cael ei fonitro yn cydymffurfio â'r gorchymyn. Fel arfer, gwneir hyn drwy ysgrifennu adroddiad byr i'r llys.

## Pwyntiau pwysig i'w nodi

Rôl Cafcass Cymru yw monitro cydymffurfiaeth â'r trefniadau ar gyfer y plentyn, fel y'u nodir yn y gorchymyn trefniadau plentyn

- Nid yw Cafcass Cymru yn gyfrifol am lunio trefniadau na hwyluso trefniadau
- Nid yw Cafcass Cymru yn rhoi cyngor na chymorth fel rhan o orchymyn monitro
- Mae Cafcass Cymru yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener ac nid yw ymarferwyr yn monitro cydymffurfiaeth y tu allan i oriau gwaith arferol

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gorchmynion-cymorth-teuluol-gorchmynion-monitro-taflen-ffeithiau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.